

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **14 Gorffennaf 2025**.

YN BRESENNOL:- Cyng. Delyth Russell (Cadeirydd a Dirprwy Faer), Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Gwynant Roberts a'r Cyng. Jackie Spence.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

01/25 YMDDIHEURIADAU: Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Medwyn Hughes, y Cynghorydd John Wynn Jones, y Cynghorydd Mark Roberts a'r Cynghorydd John Wyn Williams.

02/25 PENODI CADEIRYDD PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2025 – 2026

Cynigiwyd enw un aelod fel ymgeisydd arfaethedig ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Asedau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025 – 2026, y Cynghorydd John Wyn Williams.

PENDERFYNWYD: Gan fod y sawl a gafodd ei gynnig, sef y Cynghorydd John Wyn Williams, wedi anfon ymddiheuriadau am y cyfarfod hwn, cytunwyd y dylid gohirio'r eitem hon tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Asedau.

03/25 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2025 – 2026

Cynigiwyd enw un aelod fel ymgeisydd arfaethedig ar gyfer Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Asedau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025 – 2026, y Cynghorydd Gareth Parry.

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd Gareth Parry yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Asedau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2025 – 2026.

04/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

05/25 CYMERADWYO CPNODION CYFARFOD 27 IONAWR 2025

PENDERFYNWYD: derbyn cofnodion cyfarfod 27 Ionawr 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

06/25 I ASESU CYNIGION YGC AR GYFER CYNNAL A CHADW'R PIER

Dosbarthwyd copi o'r cynigion gan YGC ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod hwn.

Nododd y Cyfarwyddwr Dinesig fod yr eitem hon wedi'i hychwanegu at yr agenda i'w thrafod eto gan fod diweddariadau pellach wedi bod ers y tro diwethaf iddi fod ar yr agenda. Esboniodd y Cyfarwyddwr ei fod ef a'r Swyddog Prosiect wedi dod i benderfyniad ffurfiol gyda YGC y byddant yn cynnal eu harolwg cyflwr o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol hon, fodd bynnag, na fyddant angen taliad tan y flwyddyn ariannol ganlynol. Adroddwyd bod hyn yn newyddion da gan nad oedd y Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer cost mor sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Adroddwyd hefyd, pan fydd adroddiad YGC wedi'i gwblhau, y byddant yn llunio dyfynbris mwy cywir ar gyfer costau blynyddol goruchwyllo cynnal a chadw'r Pier yn y dyfodol. Teimlai Cyfarwyddwr y Ddinas fod darlun cliriach o'r dyfodol bellach yn dod i'r amlwg ar ôl ymddeoliad y Swyddog Prosiect sydd wedi goruchwyllo adferiad y Pier ers 2017.

PENDERFYNWYD: Ar ôl trafodaeth, gwnaed y ddau benderfyniad canlynol :-

- i. Bod Swyddog Prosiect presennol Cyngor y Ddinas yn llunio adroddiad manwl ar gyflwr presennol strwythur y Pier a'r gwaith a wnaed hyd yn hyn. Yna bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu â'r Pwyllgor fel y byddant yn cael gwybod yn llawn am gyflwr y Pier ar hyn o bryd. Teimlai'r Pwyllgor y byddai cael y wybodaeth hon wedi'i ffurfioli yn ddefnyddiol ar gyfer y dyfodol ar ôl ymddeoliad y Swyddog Prosiect.
- ii. Yn dilyn y wybodaeth a adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Dinesig ynghylch YGC, pleidleisiodd aelodau'r Pwyllgor gyda'u pwerau awdurdod dirprwyedig eu bod yn cyfarwyddo Cyfarwyddwr y Ddinas i ganiatáu i YGC gynnal eu harolygon ac adrodd ar y Pier a bod y wybodaeth i'w hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ôl ei chwblhau.

07/25 CYMERADWYO GOSOD PŴER SOLAR AR NEUADD Y PENRHYN

Cynhaliwyd trafodaeth fer ar y pwnc hwn; dywedwyd wrth y Pwyllgor fod angen dod i benderfyniad yn y cyfarfod hwn gan fod yr eitem hon heb ei datrys ers dros flwyddyn. Nodwyd hefyd, o ystyried ymddeoliad arfaethedig y Swyddog Prosiect yng Nghyngor y Ddinas, y bydd angen iddo oruchwyllo'r gwaith cyn iddo adael.

PENDERFYNWYD: Ar ôl trafodaeth pleidleisiwyd mai Ynni Ogwen oedd opsiwn dewisol y Cyngor. Gofynnodd y Cyngor i Gyfarwyddwr y Ddinas gyfarwyddo Ynni Ogwen i ddechrau'r gwaith.

08/25 TRAFOD COFNOD GWEITHREDU ASEDAU

Roedd y Cofnod Gweithredu Asedau wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Dinesig farn ar y sefyllfa bresennol i'r pwyllgor o ran yr eitemau a restrir yn y Log Camau Gweithredu.

PENDERFYNWYD: Gofynnodd y pwyllgor i'r eitemau canlynol gael eu hychwanegu at y cofnod:-

- i. Gyda'r trosglwyddiad asedau o Gyngor Gwynedd wedi'i gwblhau ar gyfer Parc a Gerddi Cymunedol Cae Doctor, Lôn Glyder, mae angen ychwanegu hwn at y cofnod asedau.
- ii. Gofynnwyd hefyd, gan fod Gerddi Garth, Pier Garth, dan brydles i Gyngor y Ddinas gan Gyngor Gwynedd, fod hyn yn cael ei ychwanegu at y cofnod asedau.
- iii. Mae'r man gwylio oddi ar Ffordd Caergybi i'w ychwanegu a dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddo ar y gofrestr gan fod aelodau wedi nodi bod yr wyneb yn anwastad ac yn berygl baglu. Nododd y Cyfarwyddwr Dinesig fod angen i Gyngor Gwynedd wneud gwaith i wal gynnal y man gwylio cyn y gellir gwneud unrhyw waith atgyweirio i ran Cyngor y Ddinas o'r man gwylio.
- iv. Ychwanegu'r meinciau yng Nghoed Menai sydd dal angen eu cynnal a'u cadw, fodd bynnag, cytunwyd mai blaenoriaeth isel yw hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR